

Ein siaradwyr gwadd heddiw yw **Diane a Bilgin Arif** a fydd yn sgwrsio am elusen **Mercy Ships**. Mae'r elusen yn defnyddio llongau ysbyty a phartneriaid gyda gwledydd Affrica i drawsnewid systemau llawfeddygol a darparu llawdriniaethau am ddim i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at eu sgwrs.



Ymweliad ag Amgueddfa Awyrofod Filton ym mis Mawrth

Yn ystod y mis diwethaf, fe wnaeth criw o'n haelodau fwynhau ymweliad hyfryd a diddorol ag Amgueddfa Awyrofod Filton. Mae'n werth ymweld â'r amgueddfa oherwydd mae'n amlygu llwyddiannau mawr y diwydiant awyrofod ym Mryste a oedd ar flaen y gad o ran technoleg awyrennol a gofod gan dorri cwysi i greu'r awyrennau cyflymaf a'r mwyaf a'r rhai a allai hedfan uchaf. Heb os, wrth gwrs, y prif atyniad oedd awyren Concorde Alpha Foxtrot sy'n cael ei chadw yno. Hon oedd y Concorde olaf i gael ei hadeiladu a'r olaf a wnaeth hedfan.



Cyfraniadau'r mis diwethaf at elusen

Roeddem yn falch o fod wedi codi **£73** er budd yr elusen rydym yn ei chefnogi trwy gynnal ein stondin gacennau yn ystod y mis diwethaf. Fe wnaethom hefyd gasglu cyfraniadau gwerth **£37** at elusen **Hope GB** yn dilyn sgwrs ddiddorol gan ein siaradwraig Sarah Robinson.

.....

Raffl Arbennig i Godi Arian

Heddiw, rydym yn gwerthu tocynnau raffl i ennill **Cyfrifiadur Llechen Samsung Galaxy A7** y mae'r Brif Swyddfa wedi'i roddi i ni. Rydym yn gobeithio'n arw y gwnewch chi gefnogi'r raffl. Mae'r tocynnau yn costio **£5** am sribyn ac aiff yr holl gyfraniadau at y £500 rydym yn ei roi i elusennau bob blwyddyn.

.....

Llythyr oddi wrth Angela Johnson, Swyddog Cymorth Cymrodoriaethau Cymru

Yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eich Cangen yng Ngwent, a chwestiynau a godwyd ynghylch sut caiff y ffi fesul pen ei wario, rwyf wedi cysylltu â'n Prif Weithredwr sydd wedi ymateb fel a ganlyn.

Incwm a Gwariant

Cafwyd incwm aelodaeth gan 5,500 o aelodau canghennau a 2,000 o aelodau cenedlaethol yn talu £30 yr un, sef cyfanswm o £225,000. Ychwanegwyd £34,000 at y cyfanswm hwnnw yn sgil cymorth rhodd, a chafwyd cyfanswm o £259,000, felly mae costau'r sefydliad yn dal i gael eu talu gan yr aelodau.

Bellach, mae gennym gyllideb ar gyfer 2024-25 ac mae'r bwrdd wedi'i chymeradwyo. Mae'r gyllideb yn dangos bod cyfanswm y costau yn £258,000, yn cynnwys:

- Cyflogau ar gyfer y strwythur arfaethedig newydd: £135,000 (Llai na chostau 2023-24)
- Costau adrefnu a ffioedd cyfreithiol (unwaith ac am byth): £24,000
- Cynnydd yng nghostau'r cylchlythyr, o £18,000 i £28,000
- Costau teithio, cyfarfodydd a'r CCB (cynnydd o £18,000 i £22,000)
- Ceir cynnydd o 5% yn yr holl gostau o gymharu â chostau eleni.

Ym mis Mawrth 2024, cafodd NHSRF grant gwerth £50,000 gan NHS England i ddatblygu gwefan newydd, cyfryngau cymdeithasol a systemau swyddfa, a bydd pob un ohonynt yn galluogi cyfathrebu gwell ac yn sicrhau arbedion ychwanegol. Ni ellir defnyddio'r grant hwn i dalu costau craidd.

Cynhadledd Cymru

Byddem wrth ein bodd yn gallu cynnig hyn, ond mae'n fater o gostau yn y pen draw a pha un ai a allwn sicrhau unrhyw nawdd allanol tuag at y costau.

Gohebiaeth Reolaidd oddi wrth y Prif Weithredwr

Bydd hyn yn rhan o'r strategaeth cyfathrebu ar ôl i ni gwblhau rhaglen ailstrwythuro'r sefydliad/

Yn olaf, roedd gan eich aelodau ddiddordeb mewn cael gwybodaeth am nifer yr aelodau yng Nghymru. Mae'r niferoedd yn newid, ond dyma gipolwg ar y sefyllfa yn Ionawr 2024.

Canghennau Cymru	2024
	Aelodau
Bangor GC	27
Caerdydd a'r Cylch DC	49
Clwyd GC	10
Gwent DC	71
Gogledd Ddwyrain Cymru GC	31
Gorllewin Morgannwg DC	15
	203

GWIBDEITHIAU AC YMWELIADAU

WRTH NEILLTUO LLEOEDD MEWN UNRHYW DDIGWYDDIAD, NODWCH ENWAU A MANNAU CODI PAWB SY'N BWRIADU CYFRANOGI YN Y DIGWYDDIAD.

GORNEST DDARTIAU

DYDD MERCHER 22 MAI - CANOLFAN BOWLIO DAN DO A CHWARAEON CASNEWYDD
AMSER – 12-00 - COST Y BWFFE A'R BAR: £10 (I'W DALU HEDDIW)

MAE CROESO I BARTNERIAID GYFRANOGI, YN ENWEDIG OS YDYNT YN BWRIADU CHWARAE. -
MAE ANGEN ENWAU HEDDIW OS GWELWCH YN DDA.

GWIBDAITH DDIRGEL FLYNYDDOL

CAIFF EI CHYNNAL DDYDD IAU 20 MEHEFIN. COST £20 - BYDD ANGEN Y TALIAD OLAF YN YSTOD
CYFARFOD MIS **MAI** OS GWELWCH YN DDA

AMSEROEDD CODI (yn dibynnu ar y traffig)

CWMBRÂN 08:30am

CASNEWYDD 08:45am

CAS-GWENT - ODDEUTU 09:10AM

GERDDI ABERGLASNEY - GŴYL GERDDORIAETH A BWYD

DYDDIAD: SADWRN 7 MEDI

COST: £36 - I'W DALU YN YSTOD CYFARFOD MIS GORFFENNAF

GWIBDAITH NADOLIG - ABERTAW

DEWISWYD GAN YR AELODAU

TREFNWDYD I GYNNAL YR YMWELIAD HWN DDYDD IAU 5 RHAGFYR
NODWCH HYNFY YN EICH DYDDIADUR - FE GEWCH FANYLION MAES O LAW
COST £17 - MANYLION AR GAEL YN NES AT Y DYDDIAD - I'W DALU YN YSTOD CYFARFOD MIS
TACHWEDD

YMWELIADAU Â'R THEATR

YN Y DYFODOL, BYDD ANGEN BLAENDAL O £5 NA ELLIR EI AD-DALU WRTH NEILLTUO TOCYNNAU
THEATR

KINKY BOOTS - GYDA JOHANNES

19 MAWRTH 2025 - PERFFORMIAD GYDA'R HWYR YNG NGHANOLFAN Y MILENIWM

**COST £36 - I'W DALU YN YSTOD CYFARFOD MIS HYDREF
NEILLTUWYD 20 TOCYN**

CHICAGO

8 MAI 2025 - SIOE MATINÉE YNG NGHANOLFAN Y MILENIWM

**COST £48 - I'W DALU YN IONAWR 2025
NEILLTUWYD 20 TOCYN**

TINA TURNER THE MUSICAL

12 CHWEFOR 2025 - SIOE MATINÉE YNG NGHANOLFAN Y MILENIWM

**COST £44 - I'W DALU YN YSTOD CYFARFOD MIS MAWRTH
NEILLTUWYD 20 TOCYN**

YMWELIAD Â CHANOLFAN MILENIWM CYMRU YNG NGORFFENAF

MAE ANGEN ENWAU'R SAWL SYDD Â DIDDORDEB A'R TALIAD HEDDIW OS GWELWCH YN DDA
DYDDIAD: DYDD GWENER 5 GORFFENAF AM 1PM. COST £12 OND BYDD DISGOWNT AR GAEL
(YN DIBYNNU AR Y NIFEROEDD) BYDD YN PARA ODDEUTU AWR.

**AWGRYMIADAU OS GWELWCH YN DDA AM LEOLIADAU I GYNNAL CINIO NEU DE PRYNHAWN AR
GYFER Y GRŴP - GALLEM DREFNU HYNFY BOB AIL MIS NEU PAN NA FYDDWN WEDI TREFNU
GWIBDAITH**

BYDD CROESO I BERTHNASAU A FFRINDIAU SY'N OEDOLION GYFRANOGI YN Y RHAN FWYAF O'N
GWIBDEITHIAU, AC EITHRIO PAN FYDD NIFER CYFYNGEDIG O LEOEDD AR GAEL. RHODDIR
BLAENORIAETH I'R AELODAU WRTH NEILLTUO LLEOEDD I GYFRANOGI YN Y DIGWYDDIADAU
HYNFY.

I SICRHAU Y GALL YR YMWELIADAU A'R GWIBDEITHIAU BARHAU, CEFNOGWCH EICH GRŴP

Cyfarfodydd y dyfodol

- **Dydd Llun 17 Mehefin 2024 - Pam Cocchiara** yn adrodd rhagor o gerddi doniol i'n diddanu ni
- **Dydd Llun 15 Gorffennaf 2024 - bydd Mary Watkins** yn sgwrsio am **Rwanda Rugby**, elusen sy'n addysgu sgiliau rygbi i blant yn Rwanda.

Ni fydd cyfarfod yn cael ei gynnal ym mis Awst.

TEITHIAU.

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor

Dymunwn atgoffa aelodau'r pwyllgor y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor am **2pm ddydd Iau 23 Mai 2024 yn Ystafell y Bwrdd ym Maenor Llanfrechfa**. Mae croeso i unrhyw aelodau sydd â diddordeb yn ein gwaith i ddod i'r cyfarfod.

Eich Pwyllgor.

Cadeirydd	Lynda Evans	Trefnwyr y Raffl	Jen Martin
Is-gadeirydd	<i>Swydd Wag</i>	Cyfarchwyr	Cynthia Matthews
Ysgrifenyddes	<i>Swydd Wag</i>		Carol Cunnell
Trysorydd	Denise Coldrick		Barbara Davies
Trysorydd Cynorthwyol	Lilwyn Griffiths		Kay Davies
Ysgrifenyddes Trefnu Siaradwyr	Joanne Butler		
Ysgrifenyddes Aelodaeth	Ann Hyde		
Llyfrau/Gwerthiannau/ Cydlynnydd y Diolchiadau	Pam E Jones		
Gwibdeithiau ac ymweliadau	Delyn Hunt		
Swyddogion Lles	Caroline Pitt a Megan Williams		

Manylion Cysylltu_

Cadeirydd	Lynda Evans	01633 420668	lyndaevs@hotmail.co.uk
Ysgrifenyddes			
Swyddogion Lles	Caroline Pitt Megan Williams	01633 660608 01633 420932	
Gwibdeithiau ac ymweliadau	Delyn Hunt	01633 843140	delyn46@yahoo.co.uk

Cronfa Les Cymrodoriaeth Ymddeol y GIG Sherry Smith, Swyddog Gweinyddol, y Swyddfa Ganolog. Rhif ffôn: 01305 361317, www.nhsrf.org.uk